CLWB MYNYDDA CYMRU
CYFARFOD BLYNYDDOL 2023 6.00 y h., 11eg o DACHWEDD 2023,
GWESTY ROYAL OAK, BETWS Y COED.

1. **Croeso**

   Estynnodd Stephen Williams, Cadeirydd y Clwb, groeso cynnes i'r aelodau i'r cyfarfod a diolchodd i Dwynwen Pennant am arwain y daith yn ystod y dydd ac i Iolo Roberts am y trefniadau ar gyfer y noson. Yn ei anerchiad agoriadol cyfeiriodd Stephen at y canlynol:

   Llongyfarchodd Richard Roberts, a gymerodd drosodd fel Ysgrifennydd Gweithgareddau yn y Cyfarfod Blynyddol y llynedd, am ei holl waith caled a phenigamp yn ei swydd newydd

   Diolchodd i Catrin Meurig, a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, am draddodi Darlith Goffa Llew Gwent yn hynod o ddiddorol yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan ym mis Awst ac i Dwynwen Pennant am wneud yr holl drefniadau

   Roedd yn hynod o falch fod deg o aelodau'r Clwb wedi gwneud cwrs hyfforddiant Arweinydd Mynydd gyda'r Bartneriaeth Awyr Agored yn ddiweddar. Diolchodd i Sian Williams o'r Bartneriaeth am ei gwaith yn gwneud y trefniadau a mynegodd ei falchder fod y cwrs yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg. Gobeithir y bydd y deg aelod maes o law yn gwneud yr asesiad i ennill y cymhwyster a fydd o fantais mawr i'r Clwb ac yn sicrhau fod arweinyddion cymwys ar gael i arwain teithiau

   Bod arian a dderbyniodd y Clwb drwy garedigrwydd teulu Gareth Pierce wedi cael ei ddefnyddio, mewn cydweithrediad gyda'r Urdd, i gynnig penwythnos o weithgareddau awyr agored i bobl ifanc yng ngwersyll Glan-llyn. Defnyddiwyd yr arian i sicrhau bod cost y penwythnos yn fforddiadwy. Bu'r penwythnos yn llwyddiant a chan fod rhywfaint o arian ar ôl yn y gronfa gobeithir y gellir ei ddefnyddio i gynnig rhywbeth cyffelyb y flwyddyn nesa. Roedd teulu Gareth yn gefnogol i'r ffordd y defnyddiwyd yr arian.

2. **Cydymdeimlad**

   Nodwyd fod dau aelod o'r Clwb wedi marw yn ddiweddar sef Robat Morgan o Rhuthun a Carey Cartwright o Ddyffryn Ardudwy. Estynnwyd cydymdeimlad â'u teuluoedd.

3. **Ymddiheuriadau** :

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:

   Sw Roberts, Iolo ap Gwynn

4. **Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2022**

   Derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2022,a gynhaliwyd ar 13eg Tachwedd, 2022 yng Ngwesty Royal Oak, Betws y Coed, fel rhai cywir.

5. **Adroddiad y Trysorydd**.

A. Cyflwynwyd adroddiad a datganiad ariannol ar gyfer 2022/2023 gan Dilys.

Adroddwyd

i. bod nifer yr aelodau eleni yn 259
ii derbyniwyd hefyd daliadau llai na'r tâl aelodaeth llawn o £25 gan 71 o unigolion. Ni fyddant felly yn gymwys i fod yn aelodau o'r Clwb
iii. bod y taliad i'r Cyngor Mynydda Prydeinig yn £20.25 eleni a bydd yn cynyddu i £23.90 ar 1af Ionawr 2024.
iv.bod gan y Clwb y swm o £9,463.24 yn y banc ar 30ain Medi, 2023, yn cynnwys Cronfa Goffa Gareth Pierce (£881.41). Nododd fodd bynnag bod y swm yma yn cynnwys £3,010.00 blaendaliadau ar gyfer y daith i Crianlarich yn Chwefor 2024 a fyddai felly yn cael ei drosglwyddo o'r cyfrif maes o law.
v. gyda cronfa Gareth Pierce, defnyddiwyd £528 ar gyfer penwythnos o weithgareddau awyr agored yng Ngwersyll Glan-llyn ym mis Medi a oedd yn gadel swm o £360 yn weddill yn y gronfa. Soniwyd y byddai digwyddiad cyffelyb yn 2024 pryd y gellid defnyddio gweddill yr arian yn y gronfa
v. credai fod sefyllfa ariannol y Clwb yn gadarn ar hyn o bryd ac nad oedd angen cynyddu'r tâl aelodaeth ar gyfer 2024

Cytunwyd derbyn yr adroddiad a'r cyfrifon ar gyfer 2022/2023

**6. Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth**.

Adroddodd Iolo y cynhaliwyd tri chyfarfod arferol y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, sef ym mis Ionawr, Mai a Medi ac fe gynhaliwyd un cyfarfod brys ym mis Hydref, i gyd drwy gyfrwng Zoom. Roedd y drefn o ddefnyddio Zoom i gynnal cyfarfodydd yn gweithio'n dda ac yn caniatáu i aelodau sy'n byw ym mhob rhan o Gymru ymuno â'r cyfarfodydd yn eitha rhwydd.

Gan mai un o brif gyfrifoldebau'r Pwyllgor yw cadw llygaid ar faterion ariannol y Clwb, cafwyd diweddariad gan y Trysorydd ym mhob cyfarfod. Roedd gan y Clwb y swm o £881.41, a dderbyniwyd fel rhodd er cof am Gareth Pierce gan ei deulu, yn y coffrau . Cytunodd y Pwyllgor eleni y gellid defnyddio'r arian yma i gefnogi'r Urdd i drefnu cwrs penwythnos o fynydda a gweithgareddau awyr agored i bobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nglan Llyn ar 22-24 Medi 2023, math o weithgaredd a fyddai wedi bod yn agos at galon Gareth.

Yn y Cyfarfod Blynyddol y llynedd cafwyd nifer o awgrymiadau gan aelodau sef:

• cynnal y Cyfarfod a Chinio Blynyddol ar noson yn ystod yr wythnos e.e nos Wener heb gael taith yn gysylltiedig â'r digwyddiad
• cynnal y Cyfarfod Blynyddol mewn safle yn y Canolbarth gyda'r gobaith y gellid denu aelodau o'r de a'r gogledd iddo
•gyrru neges i atgoffa aelodau i gofrestru eu ffonau symudol gyda rhif argyfwng 999 fyddai yn cynorthwyo i gysylltu â'r gwasanaethau brys mewn argyfwng

Fe ystyriwyd y materion hyn gan y Pwyllgor ac fe gytunwyd ar y canlynol :

i. bod y pwyllgor yn ffafrio parhau i gynnal y Cyfarfod a Chinio Blynyddol ar ddydd Sadwrn, gyda thaith yn ystod y dydd, a dylid sicrhau fod y daith yn lleol ac yn addas o safbwynt amser

ii. bod peryg, o gofio bod canran helaeth o aelodau'r Clwb yn byw yng Ngogledd Cymru, y gallai symud y Cyfarfod Blynyddol i leoliad yng Nghanolbarth Cymru olygu na fyddai canran digonol yn mynychu gan nad oes digon o aelodau yn byw yn y de i wneud iawn am y diffyg. Fodd bynnag, gellid ystyried cynnal y Cyfarfod Blynyddol yn rhan ddeheuol Gogledd Cymru, megis ardal Dolgellau, a allai fod rhywfaint yn fwy cyfleus i aelodau'r de.
iii. gofyn i'r Ysgrifennydd Gweithgareddau gynnwys neges am gofrestru ffonau symudol gyda rhif argyfwng 999 yn un o'i negeseuon e-bost i'r aelodau.

Ym mis Ionawr fe groesawyd Richard i'w gyfarfod cyntaf fel Ysgrifennydd Gweithgareddau newydd a bu'n brysur iawn yn ystod y flwyddyn, nid yn unig yn trefnu'r rhaglen ond ar gais y Pwyllgor fe gyflwynodd drefn newydd o raddio teithiau a fydd, gobeithir, yn gwneud natur y teithiau yn gliriach yn enwedig i aelodau newydd.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i barhau â'i aelodaeth o'r Bartneriaeth Awyr Agored.
Gyda'u cymorth mae nifer o aelodau'r Clwb wedi penderfynu gwneud y cwrs Arweinydd Mynydd (haf) ac wedi dechrau ar eu hyfforddiant. Roedd y Pwyllgor o'r farn ei bod yn bwysig rhoi cefnogaeth i aelodau wella eu sgiliau arwain a fydd yn sicr o fudd i weithgareddau'r Clwb yn y dyfodol.

Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan eleni ac roedd Dwynwen wedi trefnu i Catrin Meurig draddodi Darlith Goffa Llew Gwent ar rai o'i hanturiaethau mewn rasys rhedeg heriol iawn y bu'n cystadlu ynddynt. Hefyd fe gynhaliwyd Taith Goffa Gareth Pierce yn ystod wythnos yr Eisteddfod gyda 26 yn ymuno â thaith ar yr Eifl (yn y niwl!!) ar y 9fed o Awst dan arweiniad Iolo Roberts.

Cafwyd dwy daith lwyddiannus i'r Alban eto eleni gyda'r daith i ardal Roybridge ym mis Mai yn hynod o lwcus i gael wythnos gyfan o dywydd braf. Roedd trefniadau teithiau i'r Alban yn 2024 ar y gweill.

Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor ym mis Hydref er mwyn ystyried canllawiau'r Clwb ar gyfer teithiau preswyl mewn perthynas â'r ymweliad â Crianlarich yn Chwefror 2024. Gan mai arhosiad mewn gwesty oedd dan sylw fe gytunwyd byddai ychwanegu £2 y pen y noson at gost y daith yn ddigonol er mwyn sicrhau fod arian wrth gefn i warchod y Clwb rhag ofn y byddai'r daith yn gwneud colledion.

Roedd yn dda gweld fod y Clwb wedi cael blwyddyn lwyddiannus a phrysur unwaith eto.

Derbyniwyd yr adroddiad

**7**. **Adroddiad Ysgrifennydd Gweithgareddau**.

Yn ei adroddiad cyntaf fel Ysgrifennydd Gweithgareddau y Clwb, diolchodd Richard i bawb gytunodd i arwain teithiau ar ran y Clwb. Roedd y parodrwydd yma yn gwneud gwaith yr Ysgrifennydd Gweithgareddau'n llawer haws. Diolchodd hefyd i Eryl, ei ragflaenydd yn y swydd, am osod seiliau cadarn ac effeithiol yn eu lle.

Nododd ers dechrau'r flwyddyn y trefnwyd 55 o deithiau ar benwythnosau a 12 ar ddyddiau Mercher. Diolchodd i'r holl arweinyddion am gytuno i arwain ac yn arbennig y rhai a arweiniodd am y tro cyntaf. Yn ystod y flwyddyn roedd wyth o aelodau wedi arwain taith am y tro cyntaf.

Cafwyd taith flasu ar Moel Siabod ar 1af Mai ac fe ysbrydolwyd rhai o'r 'blaswyr' i ymaelodi ac roedd un ohonyn nhw eisoes wedi arwain taith i'r Clwb ers hynny.

Roedd y drefn o raddio teithiau wedi dechrau ym mis Medi,a olygai fod teithiau'r Clwb yn cael eu graddio yn unol â lefel eu her. Roedd hyn yn helpu darpar-gerddwyr benderfynu a ddylent ymuno â thaith ai peidio.

Cafwyd dwy daith breswyl i'r Alban yn ystod y flwyddyn sef:

- Taith aeaf i Crianlarich. Ym mis Chwefror, bu 20 o aelodau yn dringo nifer helaeth o gopaon rhwng ardal Glen Lyon yn y dwyrain a Glencoe yn y gorllewin.

- Taith haf i Roy Bridge. Mwynhaodd 11 o aelodau dywydd hafaidd dros ben ddiwedd mis Mai a llwyddwyd i esgyn nifer helaeth o gopaon.

Diolchodd i Gareth Everett Roberts (Crianlarich) a Keith Roberts (Roy Bridge) am drefnu'r ddwy daith ac i Anna George am lunio adroddiadau ardderchog sy'n croniclo'u llwyddiant.

Hefyd roedd trefniadau ar y gweill ar gyfer teithiau preswyl yn 2024 sef

taith arall i Crianlarich ar 17-24 Chwefror 2024 a thaith i Hawes, Parc Cenedlaethol yr Yorkshire Dales ar 6-10 Mai.

Treuliodd deg o aelodau'r Clwb chwe niwrnod yn derbyn hyfforddiant a oedd yn cynnwys noson stormus a gwlyb o fordwyo a gwersylla! Byddant yn treulio cyfnod arall o asesiad ar y mynyddoedd maes o law. Trefnir y cyrsiau ardderchog hyn mewn cydweithrediad â'r Bartneriaeth Awyr Agored.

Derbyniwyd yr adroddiad a diolchwyd i Richard am ei waith diwyd yn trefnu rhaglen weithgareddau

**8. Adroddiad Ysgrifennydd y Wefan**.

Cafwyd adroddiad gan Iolo ap Gwynn ar faterion gwefan y Clwb

Adroddodd ar y canlynol :

Bu'r flwyddyn ers Tachwedd 2022 yn un eithaf prysur a chofnodwyd hanesion 48 o deithiau a gweithgareddau ar y wefan, ynghyd â'r lluniau cyfatebol ar Flickr. Bu'r wefan a'r cyfrif Gweplyfr/Facebook yn ddefnyddiol i gysylltu ag aelodau ac i ddarganfod aelodau newydd. Bu hefyd yn ddefnyddiol pan oedd angen diweddaru'r Rhaglen – weithiau ar y funud olaf! Mae'r wefan yn dal yn gydnaws â ffonau clyfar a llechi iOS ac Android yn ogystal â phorwyr ar bob math o gyfrifiaduron. Mae'r 'ap' ar gyfer ffonau clyfar a phadiau iOS ac Android, a luniwyd gan Rhys Jones, yn dal ar gael (drwy ddefnyddio'r cyfarwyddiadau ar y wefan) ac yn boblogaidd fel dull hawdd o gyrchu gwybodaeth o'r wefan ble bynnag yr ydych (wel, bron iawn!).

Diolchodd i bawb ddanfonodd adroddiadau am hanes y teithiau gyda lluniau gwych.

Tynnodd sylw at y dudalen Newyddion ar y wefan hefyd a nodi fod croeso i bawb ddanfon manylion neu hanes unrhyw beth allai fod o ddiddordeb i'r aelodau.

Cofnodir manylion defnydd pob rhan o wefan y Clwb gan Google Analytics. Ers Tachwedd 2022, defnyddiwyd y wefan dros 15k o weithiau gan tua 4.5k o ddefnyddwyr (y rhan fwyaf o'r DG, nifer o'r UDA a rhai o wledydd eraill).

Nododd y byddai'n ddiolchgar o glywed gan unrhyw aelod â phrofiad o luniadu/cynnal gwefannau (defnyddir meddalwedd Adobe Dreamweaver i olygu'r wefan) fyddai gyda diddordeb mewn cynorthwyo gyda'r gwaith.

Pwysleisiodd bod y wefan yn gofnod pwysig o weithgareddau'r Clwb dros y blynyddoedd a gofynnodd i bawb ddal ati i'w chefnogi a'r tudalennau gwefannau cymdeithasol. Roeddynt yn ddullau pwysig i ledaenu gwybodaeth am weithgareddau'r Clwb,a'r unig ffordd y daw cymaint ag sy'n bosib o bobl i wybod am yr hyn sy'n cael ei ddarparu.

Penderfynwyd

i. derbyn yr wybodaeth a diolch i Iolo am ei holl waith
ii. gofynnodd y Cadeirydd i'r neges gael ei hanfon i'r aelodaeth i holi os oedd aelodau ar gael i gynorthwyo Iolo.

**9. Swyddogion y Clwb**

Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer 2024:

**Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth** : Iolo Roberts
**Ysgrifennydd Gweithgareddau :** Richard Roberts
**Ysgrifennydd y Wefan :** Iolo ap Gwynn
**Trysorydd:** Dilys A Phillips

**10**. **Aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer 2024**

Adroddwydd gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol

i. fod angen i'r Cyfarfod Blynyddol gadarnhau aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer 2024. Roedd aelodaeth bresennol y Pwyllgor fel a ganlyn:

Steve Williams – Cadeirydd
Elen Huws – Is-gadeirydd
Dilys Phillips – Trysorydd
Richard Roberts– Ysgrifennydd Gweithgareddau
Iolo ap Gwynn – Ysgrifennydd y Wefan
Iolo Roberts – Ysgrifennydd Cyffredinol
Dewi Hughes
Raymond Griffiths
Sioned Ll Jones
Keith Roberts
Dwynwen Pennant
Gethin Rowlands

Ariannell Parry

ii. Yn ôl y cyfansoddiad mae traean aelodau'r Pwyllgor (yr ymddiriedolwyr)yn ymddeol yn flynyddol, sef 4 aelod, er bod hawl i unrhyw un ohonynt gael ei ail-benodi. Y rhai sydd i ymddeol yw'r rhai sydd wedi gwasanaethu hiraf, sef

Dilys Phillips
Dewi Hughes
Elen Huws
Dwynwen Pennant

iii. Ni dderbyniwyd enwebiad i ethol aelod newydd i'r Pwyllgor ar gyfer 2024 ac felly argymhellwyd bod yr aelodaeth presennol yn parhau i wasanaethu am flwyddyn arall

Cytunwyd, yn sgil y wybodaeth uchod, y bydd aelodau presennol y Pwyllgor yn parhau i wasanaethu ar gyfer 2024.

**11. Archwilydd**

Penodwyd George Jones fel archwilydd.

**12. Unrhyw Fater Arall**

Ar ddiwedd y cyfarfod, codwyd y materion canlynol:

i. Aelodaeth o Gyngor Mynydda Prydeinig

Gan y cafwyd gwybod gan y Trysorydd eisoes fod rhan helaeth o dâl aelodaeth y Clwb yn cael ei dalu i'r CMP , holodd Gwyn Roberts beth oedd y manteision o wneud hynny ac fe gafwyd trafodaeth ar y mater.

Cytunwyd

i. gofyn i'r Pwyllgor roi ystyriaeth i'r mater
ii. gofyn i'r Ysgrifennydd Gweithgareddau , yn un o'i negeseuon rheolaidd i'r aelodau, nodi fod y Cyfarfod Blynyddol yn annog aelodau i fynychu cyfarfodydd rhanbarthol y CMP er mwyn sicrhau bod dylanwad trigolion lleol a Chymru Cymraeg ynddynt.

b. Archif

Nododd Gwyn Williams (Llanrwst) fod y Clwb wedi cael stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst yn 2019 pan oedd y clwb yn dathlu ei benblwydd yn 40 oed ac fe gafwyd arddangosfa o ddogfennau ynddi am sefydlu'r Clwb yn y blynyddoedd cynnar. Yn y Cyfarfod Blynyddol yn 2019 cytunwyd fod gwerth mawr cadw'r dogfennau yn ymwneud â sefydlu'r Clwb fel cofnod hanesyddol ac yn sgil hyn dylid ystyried eu cynnig i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth fel y byddent yn cael eu diogelu i'r dyfodol cyn belled â bod perchnogion y dogfennau yn cytuno.

Holodd Gwyn os bu unrhyw ddatblygiad ynglŷn â hyn a nododd y gallasai dyfodiad y pandemig Cofid y flwyddyn ganlynol fod wedi amharu arno.

Cytunwyd gofyn i'r Pwyllgor ystyried y mater.

c.  Siaradwr Gwadd

Holodd Iolo Roberts am farn y Cyfarfod ynglŷn â'r drefn ers nifer o flynyddoedd bellach o beidio cael siaradwr gwadd yn y Cyfarfod Blynyddol.

Roedd  barn yr aelodau ar y noson yn glir - eu bod yn hapus hefo'r drefn o beidio a chael siaradwr  gwadd.

-------------------------------------------------------------

Ar ddiwedd y cyfarfod diolchodd Steve i bawb am fynychu  a gobeithiai  y byddai pawb yn mwynhau eu cinio a chymdeithasu â chyd aelodau. Dymunodd yn dda i bawb dros y Nadolig a mynegodd y gobaith y byddai pawb yn cael hwyl ar y mynydda yn 2024.